# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: Ar-lein

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2024

Amser: 09.00 – 09.31

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Llinos Madeley, Clerc<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Tata Steel (45 munud)
- ~~Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):~~
  - ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion cynnig 1~~ – *wedi'i ohirio tan 7 Mai*
  - ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion cynnig 2~~ – *wedi'i ohirio tan 7 Mai*
- Cyfnod 3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (~~360~~ 240 munud)

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai egwyl o 10 munud cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 7 Mai 2024**

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Senedd yn 25 (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Blaenoriaethau ar gyfer newid hinsawdd a materion gwledig (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
  - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 1
  - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion – cynnig 2

**Dydd Mercher 8 Mai 2024**

- Dadl: Cyfnod 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Mai 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ein cenhadaeth genedlaethol: cyflawni blaenoriaethau addysg Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Dyfodol ffermio yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Blynyddoedd Cynnar: Gwella iechyd meddwl yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Ein gweledigaeth ar gyfer gofal maeth yng Nghymru (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 8 Mai 2024**

- Dadl ar Ddeiseb P-06-1392: Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (~~30~~ 60 munud)

**Dydd Mercher 22 Mai 2024 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1407: Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 13 Mai;
- gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a

Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 31 Mai

Nododd y Pwyllgor hefyd y diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn a drefnwyd ar gyfer 7 Mai a chytunodd, o ganlyniad, i beidio â chyfeirio'r Memorandwm at bwyllgorau i graffu arno. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes natur anfoddhaol y sefyllfa hon. Esboniodd y Trefnydd bod y Llywodraeth, oherwydd ei phryderon am y Bil, yn ystyried y dylai'r Senedd ei ystyried cyn gynted â phosibl, tra mae’r Bil yn dal i fod yn y camau diwygio yn San Steffan. Gan fod nifer uchel o ddiwygiadau wedi’u cyflwyno ar hyn o bryd yn San Steffan, tynnodd y Trefnydd sylw hefyd at y ffaith ei bod yn debygol y bydd Memorandwm Atodol pellach yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl ar ddeiseb P-06-1407. Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu a dileu’r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya ddydd Mercher 22 Mai

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ei gyfarfod ar 17 Mehefin

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais i’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gwrdd cyn ei slot dynodedig ar 17 Mehefin er mwyn darparu ar gyfer sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, ar yr amod bod holl aelodau'r Pwyllgor yn fodlon gwneud hynny.

# 6 Gwaith Gweithdrefnol

## 6.1 Rhannu Swydd Cadeirydd Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar rannu swyddi cadeiryddion pwyllgorau a chytunodd:

- bod papur yn cael ei baratoi a'i ddychwelyd i'r Pwyllgor Busnes cyn toriad y Sulgwyn ar y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n ymwneud â rhannu swydd cadeirydd pwyllgor, i gynnwys rhestr arfaethedig o gwestiynau a fydd yn sail i gasglu tystiolaeth fewnol ac allanol;
- i ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd yn uniongyrchol a thrwy Reolwyr Busnes, a chyda Fforwm y Cadeiryddion;
- cyhoeddi galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig a'i hyrwyddo i randdeiliaid perthnasol; a
- rhoi ystyriaeth bellach i amserlennu tystiolaeth lafar yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd.

Holodd Heledd Fychan a ellid ystyried y potensial i alluogi rhannu swyddi mewn rolau anstatudol eraill hefyd drwy'r broses hon. Dywedodd y Trefnydd y byddai angen i'r Pwyllgor Busnes fod yn glir wrth esbonio cwmpas y gwaith hwn, a'r rhesymau drosto, yn enwedig gyda chynulleidfaoedd allanol.

Gofynnodd Darren Millar i ystyriaeth gael ei rhoi i weld a ddylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu gan y Pwyllgor Busnes neu'r Pwyllgor Biliau Diwygio, o ystyried yr arbenigedd y mae wedi'i ddatblygu mewn meysydd cysylltiedig. Nododd hefyd y goblygiadau posibl i aelodau meinciau cefn ar gapasiti craffu os cyflwynir deiliaid swyddi ychwanegol drwy rannu swydd.

Cytunodd y Llywydd y bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y materion hyn wrth ystyried y papur nesaf ar y pwnc hwn.